Law Commission
Reforming the law



# CYFLAWNI DOGFENNAU YN ELECTRONIG

## Crynodeb o'r Adroddiad

# CRYNODEB

Yn y byd modern, mae unigolion a busnesau yn galw am ddulliau cyfleus o wneud trafodion rhwymol. Yn fwy nag erioed, mae partïon yn dod â chytundebau i gasgliad yn gyfan gwbl electronig. Ond, rydyn ni wedi cael gwybod bod yr ansicrwydd sy'n parhau o amgylch dilysrwydd cyfreithiol y dogfennau sy'n cael eu cyflawni ar-lein, o leiaf mewn rhai amgylchiadau ac yng nghyswllt rhai trafodion penodol, yn annog rhai partïon i beidio â defnyddio datrysiadau technolegol a allai gynyddu effeithlonrwydd.


Mae ein prosiect yn ystyried a oes problemau gyda'r gyfraith cyflawni dogfennau a gweithredoedd yn electronig sy'n atal defnyddio'r dogfennau electronig mewn sefyllfaoedd lle y gallent fod yn fuddiol. Fodd bynnag, nid yw'r prosiect yn ceisio gorfodi defnyddio llofnodion electronig mewn unrhyw sefyllfa benodol nag yn rhagdybio y byddant yn briodol bob amser.



Mae ein prosiect yn cwmpasu'r dogfennau masnachol a'r dogfennau defnyddiwr. Mae'r prosiect hefyd yn cwmpasu gweithredoedd gan gynnwys atwrneiaeth a gweithredoedd ymddiriedolaeth. Nid yw ein hadroddiad yn cwmpasu ewyllysiau na gwarediadau sydd wedi'u cofrestru o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002, gan fod y rhain yn cael eu hystyried gan brosiectau ar wahân sy'n cael eu cynnal gan Gomisiwn y Gyfraith a Chofrestrfa Tir EM.



## BETH YW'R PROBLEMAU AR HYN O BRYD?

| | |
|---|---|
|   **Diffyg hygyrchedd y gyfraith yng nghyswllt llofnodion electronig** | Mae rhai rhanddeiliaid wedi dweud wrthym ni bod ansicrwydd ynghylch y gyfraith bresennol ar lofnodion electronig gan nad yw wedi'i chynnwys mewn un darn o ddeddfwriaeth. |
|  **Heriau ymarferol a thechnegol defnyddio llofnodion electronig** | Dywedwyd wrthym y gall materion ymarferol effeithio ar y penderfyniad i weithredu dogfen yn electronig ai peidio. Er enghraifft, gwerth o ran tystiolaeth math penodol o lofnod electronig, diogelwch a dibynadwyedd technolegau gwahanol a natur drawsffiniol rhai trafodion. |
|  **Pryderon i ddefnyddwyr ac i unigolion agored i niwed** | Mae rhai rhanddeiliaid wedi codi pryderon bod llofnodion electronig yn fwy agored i dwyll na llofnodion wedi'u hysgrifennu. Gallai defnyddiwr neu unigolyn agored i niwed fod yn fwy tebygol o ymrwymo i gytundeb cyfreithiol rhwymol heb ei ystyried o ddifri oherwydd hwylustod y llofnodion electronig. |
|  **Tystio gweithredoedd o bell** | Mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i weithred gael ei llofnodi ym mhresenoldeb tyst sy'n ardystio'r llofnod. Yn ein hadroddiad, rydyn ni'n dod i'r casgliad ei bod hi'n debyg nad yw'r gyfraith bresennol yn caniatáu tystio "o bell" pan nad yw'r tyst yn bresennol yn gorfforol wrth i'r llofnodwr lofnodi'r weithred. |
|  **Materion ffurfiol ar gyfer cyflawni gweithred** | Mae rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu bod y gyfraith bresennol yng nghyswllt gweithredoedd wedi dyddio ac efallai nad yw'n addas i bwrpas bellach, os ydynt yn cael eu cyflawni'n electronig neu fel arall. Soniodd rhanddeiliaid hefyd am *R (Mercury Tax Group Ltd) v Comisiynydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi* [2008], pan gyfeiriodd y llys mewn sylwadau nad oeddent yn rhwymol, at y gofyniad bod rhaid i ddogfen fod yn "endid ffisegol ar wahân... ar eiliad y llofnodi." Mae'r proffesiwn cyfreithiol wedi datblygu ffyrdd ymarferol i ddelio â'r pryderon sy'n cael eu codi gan *Mercury*. Rydyn ni'n cytuno eu bod yn gweithio'n dda. |

## BETH MAE'R GYFRAITH YN EI DDWEUD AM LOFNODION ELECTRONIG?

Mae ein datganiad o'r gyfraith isod yn nodi ein casgliadau lefel uchel i'r gyfraith ynghylch dilysrwydd llofnodion electronig. Mae'n berthnasol pan fydd gofyniad statudol am lofnod a phan na fydd gofyniad o'r fath. Oherwydd y ffordd mae'r gyfraith wedi datblygu, mae gan ein crynodeb o'r gyfraith gymhwysiad eang ac nid yw wedi'i chyfyngu i ddogfennau masnachol ac i ddogfennau defnyddiwr.

### Datganiad o'r gyfraith: cyflawni gyda llofnod electronig

1. Mewn cyfraith, mae modd defnyddio llofnod electronig i gyflawni dogfen (gan gynnwys gweithred) ar yr amod bod (i) y person sy'n llofnodi'r ddogfen yn bwriadu dilysu'r ddogfen a (ii) bodloni unrhyw faterion ffurfiol yng nghyswllt cyflawni'r ddogfen honno.
2. Mae'n bosibl y gallai materion ffurfiol o'r fath fod yn ofynnol dan statud neu offeryn statudol, neu gael eu pennu mewn contract neu offeryn cyfraith breifat arall y mae'n rhaid cyflawni dogfen yn unol â nhw. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o faterion ffurfiol y bydd eu hangen o bosib: (i) bod rhywun yn dyst i'r llofnod; neu (ii) bod y llofnod ar ffurf benodol (megis wedi'i hysgrifennu a llaw).
3. Mae llofnod electronig yn dderbyniol fel tystiolaeth mewn achos cyfreithiol. Mae'n dderbyniol, er enghraifft, i brofi neu i wrthbrofi hunaniaeth y llofnodwr a/neu fwriad y llofnodwr i ddilysu'r ddogfen.
4. Ac eithrio lle darperir yn groes mewn cytundebau deddfwriaethol neu gytundebol perthnasol, neu lle mae cyfraith achosion penodol i'r ddogfen dan sylw yn arwain at gasgliad croes. Mae'r gyfraith gyffredin yn mabwysiadu dull pragmatig ac nid yw'n rhagnodi ffurf neu fath benodol o lofnod. Wrth benderfynu os yw'r dull llofnodi sydd wedi'i fabwysiadu yn dangos bwriad dilysu, mae'r llysoedd yn mabwysiadu agwedd wrthrychol ac yn ystyried yr holl amgylchiadau.
5. Mae'r llysoedd wedi, er enghraifft, barnu bod y ffurfiau canlynol sydd ddim yn electronig yn gyfystyr â llofnodion dilys:
   a. llofnodi gyda 'X'
   b. llofnodi gyda llythrennau blaen yn unig;
   c. defnyddio stamp llofnod wedi'i hysgrifennu;
   d. enw mewn print;
   e. llofnodi gyda marc, hyd yn oed pan fydd y parti sy'n gwneud y marc yn gallu ysgrifennu; a
   f. disgrifiad o'r llofnodwr os yw'n ddigon diamwys, megis "Dy fam gariadus" neu "Gwas i Mr Sperling".
6. Mae ffurfiau llofnod electronig sy'n cyfateb i'r ffurfiau hyn o lofnodion sydd ddim yn electroneg yn debygol o gael eu cydnabod yn gyfreithiol ddilys gan lys. Mewn egwyddor, nid oes rheswm i feddwl fel arall.
7. Mae'r llysoedd wedi, er enghraifft, barnu bod y ffurfiau electronig canlynol yn cael eu hystyried yn llofnodion dilys yn achosion dyletswyddau statudol i ddarparu llofnod lle mae'r statud yn dawel o ran a yw'r llofnod electronig yn dderbyniol:
   a. enw wedi'i deipio ar ddiwedd e-bost;
   b. clicio blwch "rwy'n derbyn" ar wefan; a
   c. pennawd neges SWIFT.
8. Rydyn ni o'r farn bod y gofyniad o dan y gyfraith bresennol i lofnodi gweithred "ym mhresenoldeb tyst" yn gofyn am bresenoldeb corfforol y tyst hwnnw. Dyma'r achos hyd yn oed pan mae'r person sy'n cyflawni'r weithred a'r tyst yn cyflawni / ardystio'r ddogfen gan ddefnyddio llofnod electronig.

## BETH RYDYN NI'N EI ARGYMELL?

**Gweithgor diwydiant –** Dylai'r Llywodraeth sefydlu gweithgor diwydiant gydag aelodaeth amlddisgyblaeth i ystyried materion ymarferol yng nghyswllt cyflawni dogfennau yn electronig. Dylai hefyd ddarparu canllaw ar yr arfer orau ar gyfer defnyddio llofnodion electronig mewn trafodion masnachol gwahanol ynghyd â phan mae unigolion, unigolion agored i niwed yn benodol, yn cyflawni dogfennau yn electronig.




**Bod yn dyst trwy fideo ar gyfer gweithredoedd –** Dylai'r gweithgor diwydiant ystyried datrysiadau posib ar gyfer rhwystrau ymarferol a thechnegol bod yn dyst drwy fideo i lofnodion electronig ar weithredoedd ac ardystiad. Yn dilyn gwaith y gweithgor diwydiant, dylai'r Llywodraeth ystyried diwygio deddfwriaethol i ganiatáu bod yn dyst drwy fideo.

**Adolygiad o gyfraith gweithredoedd yn y dyfodol –** Dylai adolygiad o gyfraith gweithredoedd yn y dyfodol ystyried materion eang ynghylch effeithiolrwydd gweithredoedd ac os yw'r cysyniad yn parhau'n addas i'r diben, ynghyd â materion penodol sydd wedi'u codi gan ymgynghorwyr yng nghyswllt bod yn dyst, darparu a'r penderfyniad yn *Mercury*. Dylai adolygiad o'r fath feithrin ymagwedd gyfannol a delio â'r ddwy weithred a gafodd eu cyflawni ar bapur ac yn electronig.

## OPSIYNAU ERAILL AR GYFER DIWYGIO

**Darpariaeth deddfwriaeth newydd –** Er bod y gyfraith bresennol eisoes yn darparu ar gyfer llofnodion electronig, efallai bydd y Llywodraeth yn dymuno ystyried codeiddio'r gyfraith llofnodion electronig er mwyn gwella hygyrchedd y gyfraith. Dylai unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol gael cymhwysiad eang, a bydd rhaid cael ymgynghoriad pellach. Gan fod ein cylch gorchwyl (a osododd cwmpas y prosiect hwn) wedi'i gyfyngu i ddogfennau masnachol a dogfennau defnyddwyr, nid ydym ni wedi ymgynghori â rhanddeiliaid sy'n gweithredu mewn meysydd eraill ynghylch lle gellir defnyddio llofnodion electronig, naill ai nawr neu yn y dyfodol. Felly, ni fyddai'n addas i ni awgrymu cyflwyno darpariaeth ddeddfwriaethol eang i gadarnhau statws llofnodion electronig sydd tu hwnt i'n cylch gorchwyl ni. Yn lle, rydym yn cynnig opsiynau ar gyfer diwygio y gallwn ni neu'r Llywodraeth eu dilyn gyda chylch gwaith ehangach.




Dyma grynodeb o adroddiad *cyflawni dogfennau yn electronig* gan Gomisiwn y Gyfraith. Mae'r adroddiad a mwy o fanylion am y prosiect hwn ar gael yn www.lawcom.gov.uk/project/electronic-execution-of-documents/.